



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau
o Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
19 Hydref 2022, 10:00
Drwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-Gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Hefyd yn Bresennol:		
Philipa Bassett	(PB)	Rheolwr Datblygu'r Gweithlu Sgrinio (ar gyfer eitem 4.3)
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Angela Cook	(AC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Eleri Davies	(ED)	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a Phennaeth Rhaglen HARP (ar gyfer eitemau 3 a 4.1)
Edward Guy	(EG)	Arweinydd Gwasanaeth (ar gyfer eitem 4.2)
Sharon Hillier	(SH)	Cyfarwyddwr, Is-adran Sgrinio (ar gyfer eitem 4.7)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Aideen Naughton	(AN)	Arweinydd Gwasanaeth (ar gyfer eitem 4.6.2)
Donna Newall	(DN)	Arweinydd Diogelu Penodedig (ar gyfer eitem 4.6.1)

Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Daniel Owens	(DO)	Uwch Reolwr Cyfathrebu (ar gyfer eitem 4.7)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol
Caroline Whittaker	(CW)	Arweinydd Proffesiynol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Rheolwr Safonau (ar gyfer eitem 4.2)

Ymddiheuriadau

Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Swyddog Gweithredol
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

QSIC 1/2022.10.19 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Chadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol, a nododd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.

QSIC 2/2022.10.19 Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

QSIC 3/2022.10.19 Sesiwn Graffu Fanwl - Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (HARP)

Rhoddodd ED gyflwyniad i'r Pwyllgor yn crynhoi gwaith y Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (HARP):

- Cefndir a tharddiad y rhaglen HARP, a gafodd ei sefydlu fel rhaglen ar y cyd yn 2017.
- Crynodeb o dair rhan y Rhaglen HARP: Gwyliadwriaeth; Atal a Rheoli Heintiau; a Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd.
- Sbardunau allweddol ar gyfer gwaith y tîm gan gynnwys y ffocws o amgylch yr ymgyrchoedd i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

- Cyfeiriwyd at gynllun gweithredu 5 mlynedd Llywodraeth EM ar gyfer mynd i'r afael ag ymrwethedd gwrthficrobaidd 2019-24 a'r alwad i ystyried y cynllun 5 mlynedd nesaf o 2024 ymlaen, a'r Nodau gwella ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2023.
- Parhaodd y gwaith cadw gwyliadwriaeth ar Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) ac Ymrwethedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn iechyd pobl drwy gydol y pandemig, ond gwelwyd tarfu ac oedi mewn perthynas â rhai agweddau. Roedd effeithiau tarfu ar wasanaethau i'w gweld yn glir mewn data tueddiadau yn ystod y pandemig, sydd bellach yn dechrau dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig; ac ailgysylltwyd â'r ystod lawn o ddulliau cadw gwyliadwriaeth gan fwrw ymlaen â datblygiadau newydd.
- Y sefyllfa gyffredinol o ran iechyd pobl – tueddiadau hirdymor o ostyngiad mewn cyfraddau bacteriaemia MRSA a C.difficile; a mwy o ddefnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Cynllun Gwaith HARP ar gyfer 2022-23; dychwelyd i adroddiadau rheolaidd yn erbyn nodau gwella Llywodraeth Cymru, ac ailgysylltu â chynlluniau datblygu gwyliadwriaeth.
- Roedd addysg a hyfforddiant wedi ailddechrau yn dilyn y pandemig, gyda Fforwm Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd a Fforymau Atal a Rheoli Heintiau yn ailddechrau, yn ogystal â gweminarau ar newid o ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau yn ymwneud â COVID-19.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Faterion yn ymwneud â data gofal aciwt: eglurodd ED, oherwydd effaith Covid, fod bwlch yn y data oherwydd diffyg gweithgaredd yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Tynnodd sylw at y problemau gyda'r data mewn perthynas â'r system fferylliaeth newydd a'r system wahanol o reoli stoc. Esboniodd ED fod tîm TG Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn trafodaethau gyda Gofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW) i ddatrys hyn.
- Mesurau effeithiolrwydd y rhaglen: Nododd ED y data perfformiad a gynhwyswyd ar y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad yn ymwneud â'r nodau gwella, a bod y tîm yn awyddus i wella er mwyn adlewyrchu'r gefnogaeth a ddarperir i'r Sefydliad.
- Cynlluniau i ailafael yn y cydweithio â Gwelliant Cymru.
- Adolygu AMR a chanolbwyntio ar seilwaith cenedlaethol, a rôl y Byrddau Iechyd mewn dull cydweithredol.
- Heintiau na ellir eu trin ac effaith hyn ar y gwasanaeth, a'r angen i roi'r gorau i ganolbwyntio ar COVID, gan gydnabod y byddai dysgu ohono yn allweddol i ddiogelu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Adnoddau o fewn y tîm bach i gyflawni'r agenda. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid trafod hyn yng nghyd-destun y Strategaeth Hirdymor er mwyn sicrhau bod yr adnoddau ar gael i gyflawni'r rhaglen.

Diolchodd KE i ED am y cyflwyniad ac am arwain y rhaglen, a mynegodd ei diolch i'r Tîm.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y ffordd y rheolir y Rhaglen HARP.

QSIC 4/2022.10.19**Eitemau er Sicrwydd****QSIC 4.1/2022.10.19****Ailddilysu Meddygol a Chynllunio Swyddi**

Darparodd ED grynodedb o'r cynnydd mewn perthynas â'r gofynion Ailddilysu Meddygol a'r prosesau ategol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyfeiriodd at yr Adroddiad Cynnydd ar Ailddilysu, y gofynnir amdano'n flynyddol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) fel rhan o'i brosesau i roi sicrwydd i'r Prif Swyddog Meddygol bod systemau arfarnu ac ail-ddilysu yng Nghymru yn datblygu'n barhaus er mwyn bodloni, safonau ansawdd diffiniedig 2021-22 a rhagori arnynt ble bynnag y bo modd.

Eglurodd ED fod system ar waith ar gyfer Ailddilysu Meddygol a rhan o ddatblygiad Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol oedd datblygu a gwella'r systemau a'r prosesau i gefnogi ailddilysu.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Amserlen a faint yr oedd angen i aseswyr ei gyflawni. Dywedodd MK fod yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol, a bod Meddygon Iechyd Cyhoeddus mewn Byrddau Iechyd yn gallu cwmpasu hyn fel rhan o fodel ar y cyd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y data/ystadegau sydd ar gael i ddangos cynnydd, eglurodd ED fod yr arfarniadau wedi'u gohirio yn ystod 2020 oherwydd COVID, a'u bod wedi'u hadfer yn 2021, ac felly roedd y data newydd ddechrau cael eu rhyddhau ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- Cadarnhaodd ED fod y tîm yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Datblygiad Sefydliadol a Phobl i gysylltu'r data arfarnu â'r dangosfwrdd er mwyn darparu mecanwaith adrodd rheolaidd.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gael sicrwydd** bod systemau ar waith i gefnogi'r gwaith o Ailddilysu Ymgynghorwyr Meddygol.
- **Cefnogi'r** gwaith o ddatblygu Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i wella ymhellach y trefniadau a'r systemau ar gyfer Ailddilysu.

QSIC 4.2/2022.10.19**Archwiliad o drefniadau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dilysu cofrestriad proffesiynol gweithredol ar gyfer 2022/23**

Darparodd CW ac EG drosolwg o'r adroddiad, a oedd yn crynhoi'r archwiliad a gynhaliwyd ar draws y sefydliad i gadarnhau bod y prosesau presennol a ddefnyddir gan Gyfarwyddiaethau i wirio cofrestriad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn addas

at y diben. Cynhaliwyd hyn yn flynyddol, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnodau rhwng 31 Mawrth 2021 a 1 Ebrill 2021. Roedd cyswllt byw uniongyrchol hefyd rhwng y Cofnod Staff Electronig (ESR) a chofrestrau'r NMC a HCPC i hwyluso diweddaru statws cofrestriad proffesiynol mewn amser real.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ymchwilio i'r rhyngwyneb rhwng y data hwn â'r system ESR.

Cymerodd y pwyllgor **sicrwydd** bod y trefniadau a amlinellir yn y papur yn addas at y diben a nodwyd.

QSIC 4.3/2022.10.19**Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd**

Cyflwynodd PB yr adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- O ran cwmpas y fframwaith hwn, byddai'n ddefnyddiol i'r cyd-destun gynnwys niferoedd a chanrannau'r gweithlu yr oedd hyn yn berthnasol iddo yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Eglurodd PB fod cyfanswm o tua 155 o staff, a nododd yr awgrym i gynnwys y wybodaeth hon mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Cwestiwn ynghylch a oedd ymarfer myfyriol wedi'i ymgorffori yn y rhaglen, dywedodd PB fod hwn wedi'i gynnwys yn yr Uned Datblygiad Personol (Uned 1), a'i fod yn cael ei asesu'n gyfannol drwy gydol y rhaglen.
- Y llwybrau ar gyfer dysgu a datblygu pellach, gan nodi enghreifftiau o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn dilyn gradd nyrsio rhan amser lle y defnyddiwyd y fframwaith fel tystiolaeth ddiweddar o ddysgu.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ran y cynnydd gyda gweithredu'r Fframwaith Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gadawodd ED a CW y cyfarfod am 11:28.

QSIC 4.4/2022.10.19**Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).****QSIC 4.4.1/2022.10.19****Diweddariad ar y Ddyletswydd Ansawdd**

Cyflwynodd JB y diweddariad gan y grŵp Uwch Swyddogion Cyfrifol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd sy'n arwain y gwaith o weithredu'r Ddyletswydd Ansawdd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd nifer o ffrydiau gwaith yn cael eu sefydlu i gefnogi'r sefydliad i fodloni gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), gan gynnwys:

- Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol sy'n datblygu ac yn ymgorffori dull y sefydliad o ymdrin ag ansawdd;

- Arwain gweithgarwch rheoli ansawdd drwy'r Hwb Gwella ac Arloesi,
- Dangos cydymffurfiaeth sefydliadol â gofynion adrodd y Ddyletswydd Ansawdd,
- Cyflwyno hyfforddiant ar y Ddyletswydd Ansawdd i'r holl staff a chyflwyno cynllun cyfathrebu.

Myfyriodd y Pwyllgor ar barodrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar lefel y Bwrdd a'r Sefydliad, gan gynnwys y broses a pharodrwydd y system cyn rhoi'r ddyletswydd ar waith ym mis Ebrill 2023. Nododd JB yr ymgysylltiad â'r Bwrdd mewn perthynas ag Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol a'r Hwb Gwella ac Arloesi, a'r gwaith mewnol i gefnogi'r dulliau hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael diweddariad pellach ar ffrwd waith Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol ar yr adeg briodol.

Camau gweithredu: JB

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r diweddariad a'r cynnydd o ran gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

QSIC 4.4.2/2022.10.19	Diweddariad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd
------------------------------	---

Cyflwynodd RBW yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor ynghylch gweithredu Canllawiau a Rheoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel y'u gosodwyd ar gyrrff y GIG gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Roedd Llywodraeth Cymru wedi lansio'r Ymgynghoriad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ar 20 Medi 2022 am gyfnod o dri mis sy'n dod i ben ar 13 Rhagfyr 2022.

Trafododd y Pwyllgor barodrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar lefel y Bwrdd a'r Sefydliad, gan gynnwys y broses a pharodrwydd y system cyn rhoi'r ddyletswydd ar waith ym mis Ebrill 2023. Eglurodd RBW mai'r broses ar gyfer y ddyletswydd Gonestrwydd fyddai adeiladu ar y systemau sydd eisoes ar waith fel Gweithio i Wella, a nododd yr angen i ymgorffori dull tryloyw, dim bai a dysgu pan aiff pethau o chwith.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn sefyllfa i weithredu gofynion y Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd a chydymffurfio â nhw yn llwyddiannus, a nodwyd bod diweddariad pellach wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2023.

Ymunodd DN â'r cyfarfod am 12:01.

QSIC 4.5/2022.10.19	Egwyl
QSIC 4.6/2022.10.19	Diogelu
QSIC 4.6.1/2022.10.19	Diweddariad ar y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, Cynllun Gwella'r Matrics

**Aeddfedrwydd Diogelu a Diweddariad Canol
Blwyddyn y Grŵp Diogelu**

Cyflwynodd RBW yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hunanasesiad a chynllun gwella'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu.

Trafododd y Pwyllgor sgôr gyffredinol yr hunanasesiad, a oedd wedi gostwng un pwynt ar gyfer y cyfnod adrodd 2022 i 2023. Myfyriodd DN ar y gwaith craffu pellach a wnaed ar y safonau mewn blynyddoedd blaenorol. Cynhaliwyd yr hunanasesiad gan yr arweinydd penodedig ar ddiogelu gyda gweithdy i ymgysylltu â'r sefydliad ehangach. Ychwanegodd RBW fod ôl-wiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn broblem genedlaethol, y bu'n anodd mynd i'r afael â hi ers sawl blwyddyn oherwydd y goblygiadau sylweddol o ran cost.

Darparodd AN gyd-destun cenedlaethol i'r sgorio; roedd y sgôr yn oddrychol ac roedd hyn yn ffactor ar gyfer diwygio'r offeryn i system sgorio Coch, Oren, Gwyrdd (COG), a nododd hefyd fod adolygiad gan gymheiriaid wedi'i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd.

Rhoddodd AC ddiweddariad byr ar rai o'r materion busnes allweddol sy'n cael eu datblygu a'u monitro gan y grŵp diogelu traws-sefydliadol. Nododd AC fod cofrestr risg wedi'i datblygu o fewn y Grŵp Diogelu i sicrhau mwy o oruchwyliaeth er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â Diogelu, a'r angen i adolygu a sicrhau lefel uwch o graffu yn y prosesau rheoli data o ran digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelu.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Roedd y ffigurau ar gyfer sgôr y sefydliad dysgu wedi gostwng ers y llynedd. Nododd DN ymgysylltiad Iechyd Cyhoeddus Cymru â Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r dull o ledaenu dysgu. Roedd gwelliannau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn canolbwyntio ar sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gryfhau'r dysgu a'r gwelliannau, gan amlygu gwersi i'w dysgu o unrhyw gyhoeddiadau ynghylch adolygiadau ymarfer oedolion neu adolygiadau ymarfer plant ymarferol sy'n berthnasol i weithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru a sut y cafodd hyn ei ledaenu drwy'r grŵp llysgenhadon diogelu.
- Wythnos ddiogelu rhwng 14 a 18 Tachwedd, ac amserlen y digwyddiadau i godi proffil diogelu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Nododd DC ei rôl fel Hyrwyddwr Anweithredol Plant a Phobl Ifanc, a'i bod yn rhan o'r Grŵp Diogelu.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Nodi** bod yr hunanasesiad a chynllun gwella'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu wedi cael ei gyflwyno.
- **Cael sicrwydd** bod trefniadau ar waith o fewn y sefydliad gan gynnwys cynllun gwella'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, i hyrwyddo lles plant, pobl

ifanc ac oedolion mewn perygl, a bod y trefniadau hynny'n cael eu monitro.

QSIC 4.6.2/2022.10.19 | Adroddiad Blynyddol Diogelu Cenedlaethol

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Diogelu Cenedlaethol ar gyfer 2021-22, gan roi crynodeb o'r gwaith ar lefel genedlaethol drwy Rwydwaith Diogelu GIG Cymru. Nododd AN fod y cynllun gwaith wedi'i ddatblygu ar y cyd a'i gytuno gyda'r Prif Swyddog Nyrsio a grŵp cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a'i fod yn canolbwyntio ar yr amcan i arwain ac ysgogi gwelliannau ar draws system y GIG yn gyffredinol.

Diolchodd y Pwyllgor i AN am ei harweiniad ar lefel genedlaethol ar ddiogelu a **chafodd sicrwydd** ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cefnogi prosesau Diogelu Cenedlaethol.

Gadawodd AN a DN y cyfarfod am 12:23

QSIC 4.7/2022.10.19 | Newid Amllder y Profion Sgrinio ar gyfer Sgrinio Serfigol Cymru – Diweddariad

Ymunodd SH â'r cyfarfod a rhoddodd grynodeb o'r gwaith a wnaed i dawelu meddyliau'r cyhoedd yn dilyn yr ymateb cyhoeddus a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd i'r newid yn amllder y profion sgrinio serfigol i'r rhai rhwng 25 a 49 oed a gafodd ganlyniad HPV negyddol.

Tynnodd SH a DO sylw at y canlynol:

- Cynhaliwyd adolygiad ar ôl gweithredu ym mis Mawrth 2022 i fyfyrio ar yr ymateb i'r cyfathrebu gwreiddiol ar y newid yn amllder y profion sgrinio ym mis Ionawr 2022. Nodwyd yr hyn a ddysgwyd a bu hyn yn sail i'r dull a fabwysiadwyd tuag at dawelu meddyliau pobl.
- Amcanion yr ymgyrch oedd ennyn ymddiriedaeth yn niogelwch ac effeithiolrwydd y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru a meithrin dealltwriaeth o HPV a phroffion HPV.
- Roedd yr ymgyrch wedi'i thargedu'n bennaf at fenywod a phobl â chanddynt serffics rhwng 24 a 49 oed yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai mewn cymunedau lle roedd y nifer sy'n cael eu sgrinio yn is yn gyffredinol.
- Y dull strategol o gynllunio'r ymgyrch gan ddefnyddio offeryn cynllunio cyfathrebu OASIS.
- Ymgysylltwyd â phartneriaid allweddol i lywio datblygiad yr asedau creadigol ac i sicrhau cyrhaeddiad ehangach yr ymgyrch.
- Gwerthusiad o'r ymgyrch gyfathrebu a gynhaliwyd rhwng 29 Mehefin a 22 Awst 2022 gan ddefnyddio fframwaith gwasanaeth cyfathrebu'r llywodraeth.
- Dysgwyd gwersi da, a fyddai'n cael eu datblygu ymhellach i lywio ymgyrchoedd sgrinio yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor y rhesymeg dros ffocws yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a'r risg o allgau digidol; nododd DO fod y pryder cychwynnol gan y cyhoedd wedi'i amlygu ar y cyfryngau cymdeithasol, a myfyriodd ar gost-effeithiolrwydd a'r dull o dargedu'r gynulleidfa.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddar a **chafodd sicrwydd** fod yr ymgyrch gyfathrebu wedi cyflawni ei nod.

QSIC 4.8/2022.10.19 Rheoli Risgiau

Ystyriodd y Pwyllgor y risgiau strategol a chorfforaethol o fewn ei gylch gwaith at ddibenion craffu a herio.

Mewn perthynas â Risg Strategol 1, rhoddodd RBW ddiweddariad gan TC: roedd yr asesiad hyder o ran cyflawni yn oren. Rhan annatod o'r adolygiad o'r strategaeth hirdymor oedd adolygu'r bygythiadau posibl i iechyd, a bod trafodaethau'n parhau mewn cyfarfodydd Gweithredol.

Mewn perthynas â Risg Strategol 2, nododd MK fod yr asesiad hyder o ran cyflawni wedi'i adolygu a'i fod bellach yn wyrdd, i gydnabod y sefyllfa well o ran yr angen i ymateb i'r pandemig COVID-19. Roedd pryder parhaus ynghylch argaeledd gweithlu arbenigol, gan nodi swyddi gwag mewn meysydd fel sgrinio. Roedd MK yn gweithio gyda Robin Howe (Cyfarwyddwr Clefydau Heintus) i nodi ffyrdd o liniaru'r risg hon i ddarparu gwasanaethau microbioleg rhagorol.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Ystyried** y Gofrestr Risgiau Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor a **chafodd sicrwydd** bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

QSIC 4.9/2022.10.19 Diweddariad Polisi Ddwywaith y Flwyddyn

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r diweddariad chwe-misol ar statws yr holl bolisiau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor hefyd **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisiau a gweithdrefnau Corfforaethol a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

QSIC 5/2022.10.19 Eitemau i'w Cymeradwyo

QSIC 5.1/2022.10.19 Polisiau i'w Cymeradwyo

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y polisiau canlynol:

- Gweithdrefn Rheoli Honiadau o Gam-drin gan Staff.
- Polisi Diogelwch Ymbelydredd.

QSIC 5.2/2022.10.19 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod;
- **Cymeradwyo** cau y camau yn y cofnod o gamau gweithredu;
- **Nodwyd** nad oedd dim materion yn codi.

QSIC 6/2022.10.19**Eitemau i'w Nodi****QSIC 6.1/2022.10.19****Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio****Nododd** y Pwyllgor y Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.**QSIC 6.2/2022.10.19****Rhagolwg****Nododd** y Pwyllgor y rhagolwg.**QSIC 6.3/2022.10.19****Diweddariad ar y System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru****Nododd** y Pwyllgor y Diweddariad i'r System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru, a gafodd ei gylchredeg i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod diwethaf.**QSIC 7.6/2022.10.19****Adborth gan y Pwyllgor****Nododd** y Pwyllgor y bwriedir gofyn am adborth ychwanegol ar y cyfarfod drwy e-bost.**Nododd** y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Rhagfyr 2022, ac y byddai'n gyfarfod wyneb-yn-wyneb ac yn cynnwys ymweliad â safle Parc Magden, Llantrisant.*Daeth y sesiwn agored i ben am 13:10*